Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

CYMRU IACHACH:

EIN STRATEGAETH GWEITHLU AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Gaeaf 2020/21 - Crynodeb o Gyflawniadau

GWEITHLU IACH, YMGYSYLLTIOL AC UCHEL EI GYMHELLIAD

GYDA'N GILYDD

Wedi helpu i weithredu rhaglen frechu'r ffliw a Covid-19.

AaGIC

Wedi datblygu offer ac adnoddau digidol rhagorol i gefnogi lles corfforol a meddyliol, gan gynnwys fframwaith llywodraethu staff, a helpu i ddatblygu'r offeryn asesu risg Covid-19.

GCC

Wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau a dulliau i gefnogi lles, gan gynnwys: rhaglen cynorthwyo gweithwyr; grwpiau cymheiriaid i gynorthwyo rheolwyr; grŵp cymheiriaid ar gyfer profedigaeth a cholled; a cherdyn gweithiwr gofal newydd.

DENU A RECRIWTIO

GYDA'N GILYDD

Wedi sefydlu rhwydwaith ar y cyd i rannu arfer da.

AaGIC

Wedi parhau i ddatblygu cymorth gyrfaol, gan gynnwys; tudalennau glanio ar gyfer recriwtio Covid-19, cyfleoedd gwirfoddoli; platfform digidol 'Careersville'; a chyflymu ein cynlluniau 'datblygu eich staff eich hun', gan lansio ein rhaglen 'Gwnaed yng Nghymru'.

GCC

Wedi parhau i ddatblygu'r wefan Gofalwn Cymru gyda phorth swyddi gwell sy'n cynnwys adran ddysgu ar gyfer y rhai sy'n chwilio am swydd ochr yn ochr â chynllun peilot recriwtio cyflym a 2 ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol a'r teledu.

MODELAU GWEITHIO DI-DOR

GYDA'N GILYDD

Wedi defnyddio cynhadledd casglu gwybodaeth a chasglu data'r gweithlu i lywio datblygiad cynllun gweithlu iechyd meddwl.

AaGIC

Wedi datblygu a chyflwyno ymagwedd amlddisgyblaethol at gynllunio'r gweithlu ym maes gofal sylfaenol gydag adnoddau ategol.

GCC

Wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu i gefnogi'r broses o ddatblygu cynllun gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol a gwaith cymdeithasol.

DATBLYGU GWEITHLU SY'N BAROD YN DDIGIDOL

GYDA'N GILYDD

Wedi gweithio gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd a chatalog y datrysiadau dysgu rhithwir, gan gynnwys e-ddysgu, ystafell ddosbarth rithwir ac efelychu.

AaGIC

Wedi targedu'r sgiliau clinigol ac anghlinigol sy'n angenrheidiol i asesu, brysbennu ac ymgynghori trwy ddefnyddio technoleg, gyda rhaglenni hyfforddiant priodol, gan gynnwys efelychu.

GCC

Wedi darparu cyllid ychwanegol i gefnogi cynigion ar gyfer buddsoddiad digidol a chynnwys blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer dulliau digidol yn y grantiau ar gyfer 21/22.

ADDYSG A HYFFORDDIANT RHAGOROL

GYDA'N GILYDD

Wedi gweithio gydag academyddion a'r Sefydliadau Dyfarnu i gefnogi'r broses o addasu'r fethodoleg asesu er mwyn ystyried effaith Covid-19.

AaGIC

Wedi gwneud gwelliannau i agweddau allweddol ar addysg, gan gynnwys ansawdd ac amrywiaeth cyfleoedd lleoliadau clinigol ar gyfer myfyrwyr; hyfforddiant wedi'i seilio ar efelychu a safonau ar gyfer dysgu seiliedig ar waith, graddio myfyrwyr meddygol yn gynnar ochr yn ochr â derbyn mwy o fyfyrwyr a hyfforddeion i ddechrau yn 2021 ar draws grwpiau iechyd proffesiynol.

GCC

Wedi cynorthwyo rheolwyr ar draws y sector trwy gynnig dosbarthiadau meistr i ddarparwyr dysgu cymeradwy sy'n cyflwyno'r cymwysterau Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli, ac wedi cyflwyno fframwaith sefydlu ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol.



ARWEINYDDIAETH AC OLYNIAETH

GYDA'N GILYDD

Wedi datblygu ac ymgynghori ar egwyddorion cytunedig arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol i ategu datblygiadau ym mhob sector.

AaGIC

Wedi cynorthwyo rheolwyr ac arweinwyr trwy ein platfform adnoddau arweinyddiaeth digidol dwyieithog, sef "Gwella"; digwyddiad datblygu arweinyddiaeth 'Talentbury' ac ymgysylltu'n weithredol â staff o grwpiau BAME i ddeall y materion a allai fod yn atal eu datblygiad gyrfaol.

GCC

Wedi cyflwyno ein rhaglen Arwain trwy Esiampl ar gyfer penaethiaid gwasanaethau yn ddigidol, gyda chyfarfodydd cymorth gan gymheiriaid digidol unwaith y pythefnos ar gyfer penaethiaid gwasanaethau.

CYFLENWAD A FFURF Y GWEITHLU

GYDA'N GILYDD

Wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd am ein datrysiad 'gweithlu sydyn'.

AaGIC

Wedi datblygu fframweithiau cymhwysedd a swydd-ddisgrifiadau ar gyfer mentrau a gwasanaethau newydd i gefnogi COVID-19, ochr yn ochr â lansiad tawel y platfform digidol ar gyfer cynllunio'r gweithlu i helpu i wella'r gallu i gynllunio'r gweithlu.

GCC

Wedi ailwampio ein dulliau o gasglu data am y gweithlu, gan gynnwys datblygu porth data'r gweithlu.